Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llanbrynmair
# Canolfan Gymunedol
# Llanbrynmair
# Powys
# SY19 7AB

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/02/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Llanbrynmair, sydd yn cwrdd mewn ystafell gymunedol yn Ysgol Llanbrynmair, yn awdurdod lleol Powys. Mae'r lleoliad ar agor am bedwar bore'r wythnos.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 12 plentyn ar unrhyw adeg benodol. Mae'r ymarferwyr yn darparu addysg ar gyfer plant sydd yn dair a phedair oed. Mae pob plentyn yn y lleoliad wedi eu hariannu i dderbyn addysg y blynyddoedd cynnar.

Mae bron pob un o'r plant o gefndir gwyn Prydeinig ac mae ychydig o'r plant yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tri aelod o staff. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Medi 2017.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Chwefror 2016 a gan Estyn ym mis Hydref 2010.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn dangos cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- bron pob un o'r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn gyfrifol
- ymarferwyr yn cydweithio'n bwrpasol i ddarparu gweithgareddau diddorol i wella dysgu'r plant
- yr addysgu'n llwyddo i ysgogi'r plant a gwella'u safonau a'u lles
- gofal gwyliadwrus a chadarn yr ymarferwyr yn creu awyrgylch ac ethos cefnogol
- ardaloedd dysgu dan do yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn rhoi cyfeiriad clir i waith dyddiol a thymor hir y lleoliad
- y pwyllgor rheoli yn cefnogi y lleoliad yn bwrpasol
- gweithdrefnau hunanarfarnu yn arwain at dargedau dilys i weithredu er lles y plant
- hyfforddiant yr ymarferwyr yn briodol ac yn dechrau dylanwadu'n fuddiol ar ddatblygu eu medrau personol
- defnydd pwrpasol o wasanaethau allanol, sy'n effeithio'n llwyddiannus ar y ddarpariaeth
- partneriaethau cadarnhaol gyda rhieni, gofalwyr, yr ysgol ac asiantaethau allanol, sy'n cefnogi'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn bwrpasol

## Argymhellion

A1 Defnyddio arsylwadau dyddiol yn fwriadus i olrhain cynnydd plant unigol dros amser

A2 Gwneud gwell defnydd o'r ardal allanol

A3 Gwreiddio'r systemau arweinyddiaeth newydd

A4 Sicrhau bod arferion monitro a gwerthuso'r pwyllgor rheoli yn drylwyr a rheolaidd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau o'u mannau cychwyn sy'n debyg i'r cyfartaledd disgwyliedig. Maent yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd a rhifedd, gyda llawer o'r plant yn gwneud marciau ac ychydig yn ysgrifennu eu henwau a rhifau'n bwrpasol.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn siarad yn glir ac yn gwneud yn siŵr bod oedolion a phlant eraill yn eu deall wrth drafod a rhannu syniadau yn ystod gweithgareddau. Maent yn cynnal trafodaethau synhwyrol gydag oedolion a'i gilydd wrth gydbwyso eira ffug â thafol a chwblhau siartiau mesur yn yr ysbyty chwarae rôl. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau gan eraill ac yn gweithredu arnynt yn effeithiol, wrth liwio'r ddraig goch â phensiliau lliw a thrafod y gwahanol synhwyrau yn ystyrlon mewn grŵp. Mae ychydig o'r plant yn defnyddio iaith aeddfed mewn chwarae digymell a strwythuredig. Mae hyn yn cynnwys trafod rhannau'r corff a'u pwrpas ac arwain ar y broses o bwyso cynhwysion i greu bisgedi'r Nadolig.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau eu cynnwys. Maent yn trafod cymeriadau a digwyddiadau yn hyderus gydag oedolion a chyfoedion ac yn trin llyfrau fel darllenwyr naturiol. Mae llawer o'r plant yn eistedd yn dawel ac yn dilyn storïau a ddarllenir iddynt yn ddeallus. O ganlyniad, maent yn rhannu storïau gyda'i gilydd ac yn ymateb â diddordeb i gynnwys y stori.

Mae llawer o'r plant yn gwneud marciau yn effeithiol. Maent yn mwynhau profiadau ysgrifennu cynnar ac yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau. Maent yn arbrofi gyda phaent, sialc, creonau, pensiliau ac ysgrifbinnau lliwgar i greu lluniau o'u wynebau a'u teuluoedd. Mae lleiafrif o'r plant yn adnabod eu henwau eu hunain yn gywir, gydag ychydig ohonynt yn ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau yn annibynnol. Mae llawer o'r plant yn esbonio diben ysgrifennu yn y cyd-destunau cywir, er enghraifft wrth wneud marciau ar bapur wrth gofnodi manylion personol y cleifion yn yr ysbyty.

Mae llawer o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol ac mewn cyd-destunau cywir. Mae'r rhan fwyaf yn cyfrif, yn adnabod ac yn enwi rhifau hyd at 10 yn hyderus. Mae ychydig o'r plant yn cyfrif tu hwnt i 10 yn fedrus, wrth drefnu gwrthrychau ac anifeiliaid gwahanol yn y twb dŵr.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau mathemategol yn effeithiol. Maent yn defnyddio graddfa yn llwyddiannus i fesur llaeth ac maent yn trefnu ei gilydd mewn rhes gan ddefnyddio trefnolion yn effeithiol cyn golchi eu dwylo. Yn ogystal, maent yn cydweithio'n dda wrth ludo sticeri ar bapur i greu patrymau cymesur ac wrth greu graffiau o liw llygaid y plant yn y lleoliad.

Mae llawer o'r plant yn deall y gwahaniaeth rhwng symud i'r dde a'r chwith wrth iddynt daflu a dilyn peli ar fuarth yr ysgol. Maent hefyd yn grwpio mathau gwahanol o wrthrychau yn ôl maint, siâp a lliw yn gywir, yn enwedig wrth drefnu blociau i adeiladu

tyrrau lliwgar. Mae llawer o'r plant yn cymharu siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn yn gywir. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys creu sgerbydau wrth ludo gwahanol fathau o frwyn ar bapur du ac wrth drefnu blociau pren i greu tŷ i'r pengwiniaid yn yr ardal byd bach.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau defnyddio technoleg yn effeithiol wrth ddefnyddio llechi electronig a thrwy dasgau sy'n cynnwys teganau electronig a chyfrifiadur. Yn ogystal, maent yn defnyddio meddalwedd addysgol ac apiau ar y llechi i ddatblygu eu medrau TGCh a'u medrau echddygol manwl yn bwrpasol.

Mae llawer o'r plant yn datblygu medrau meddwl defnyddiol trwy weithgareddau diddorol, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau y maent yn eu cyflawni. Er enghraifft, maent yn dilyn rysáit a gweithio'n ddeallus gydag eraill wrth iddynt archwilio cyfaint gwahanol gynhwysion, gan benderfynu a yw jygiau a chynwysyddion yn 'llawn', 'gwag' neu'n 'hanner llawn'.

Mae bron pob un o'r plant yn hoffi gwrando ar gerddoriaeth ac maent yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn y Gymraeg. Pan gânt y cyfle, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio'u medrau corfforol yn briodol, er enghraifft wrth iddynt redeg o amgylch y buarth yn llawn egni. Fodd bynnag, nid yw medrau corfforol y plant wedi datblygu'n ddigon cyson nac i'r lefel briodol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad a phan fyddant yn gadael. Maent yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at oedolion a'i gilydd. Mae bron pob un yn gwrando'n ofalus ar ymarferwyr. Enghreifftiau effeithiol o hyn yw wrth iddynt greu siapiau a llythrennau yn y gliter lliwgar ac wrth iddynt rolio a thorri toes i greu gwrthrychau sy'n gysylltiedig â'r Nadolig.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio'n gydwybodol yn ystod y gweithgareddau. Maent yn diddori mewn gweithgareddau torfol fel chwarae offerynnau mewn cerddorfa. O ganlyniad, maent yn mwynhau'r tasgau a ddarperir iddynt tu fewn yr adeilad ac yn gweithredu arnynt yn frwdfrydig.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhannu adnoddau ac yn gweithio'n synhwyrol gyda phlant eraill. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd, fel defnyddio bocsys golau i ddarllen pelydrau-x ac arbrofi i ddarganfod pa wrthrychau sy'n arnofio a suddo.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau deall y gallant wneud dewisiadau synhwyrol yn ystod chwarae rhydd. Maent yn mynegi barn a gwneud dewisiadau personol yn effeithiol, er enghraifft wrth iddynt benderfynu symud o un ardal chwarae i'r un nesaf yn annibynnol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ddysgwyr hyderus a hunangynhaliol.

Ar ôl defnyddio'r toiled, ac ar ôl chwarae anniben a gweithgareddau awyr agored, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr a heb lawer o anogaeth gan oedolyn. Mae hyn yn datblygu eu hymwybyddiaeth o hylendid pwrpasol a rhinweddau cadw'n iach yn llwyddiannus.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r profiadau dysgu yn bodloni anghenion a diddordebau'r plant yn llwyddiannus ac yn cynnig cyfleoedd defnyddiol iddynt ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Mae'r arweinydd a'i chydweithwyr yn darparu cwricwlwm cytbwys ar gyfer y plant. O ganlyniad, mae'r gweithgareddau dyddiol yn adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn effeithiol, yn enwedig tu fewn i'r adeilad.

Mewn amser byr, mae'r ymarferwyr wedi sicrhau cydweithredu cydwybodol rhyngddynt er mwyn darparu gweithgareddau diddorol a difyr, sy'n cymell y plant i ddysgu'n ymarferol. Maent yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn bwrpasol a deallus. Yn ogystal, maent yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau meddwl a chreadigol y plant yn bwrpasol, er enghraifft wrth iddynt gopïo'u hwynebau o ddrychau ar fyrddau gwyn. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon bwriadus er mwyn defnyddio'r ardal allanol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio heriau diddorol i'r plant ddatrys problemau, er enghraifft trwy rifo conau pinwydd a chwarae dominos wrth baru anifeiliaid gwahanol. Mae'r gweithgareddau pwrpasol hyn yn amlwg yn yr holl feysydd dysgu. O ganlyniad, maent yn herio'r rhan fwyaf o'r plant i berfformio ar eu gorau'n gyson. Mae'r gweithgareddau yn adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol y plant. Mae'r lleoliad yn herio'r plant mwyaf galluog yn bwrpasol trwy baratoi a chynllunio gweithgareddau ymestynnol ar eu cyfer yn ystod yr wythnos.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod bod medrau Cymraeg llawer o'r plant ar lefel isel pan fyddant yn cychwyn yn y lleoliad. Maent yn mynd i'r afael â hyn yn gydwybodol drwy fodelu geirfa, rhifau, lliwiau, siapiau ac ymadroddion yn rheolaidd. O ganlyniad, mae dealltwriaeth bron pob un o'r plant o'r iaith yn datblygu'n gyflym. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus. Ymhlith y gweithgareddau hyn mae dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen yn flynyddol.

Darperir cyfleoedd effeithiol i blant ddefnyddio offer TGCh fel teganau a llechi electronig, chwaraewr cryno ddisg, camerâu a chyfrifiadur. Cynigir cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu eu medrau TGCh yn llwyddiannus, drwy ddefnyddio meddalwedd addysgol ac apiau yn bwrpasol ar y llechi.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant, fel heddweision, ffermwyr, taith i gaffi a siop y pentref. O ganlyniad, mae ymwybyddiaeth gadarn gan y plant o'u milltir sgwâr a dealltwriaeth ddefnyddiol o rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cyfarch y plant yn gynnes ac yn frwdfrydig wrth iddynt gyrraedd ar gyfer pob sesiwn. Mae'r brwdfrydedd hwn yn parhau trwy gydol y sesiynau. Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol ac yn ddiogel ac mae hyn yn annog cyfranogiad a brwdfrydedd y plant yn yr holl weithgareddau.

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plentyn. Maent yn gweithredu gofynion y cyfnod sylfaen yn ddeallus ac yn cydweithio'n effeithiol. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn sichrau cydbwysedd effeithiol rhwng gweithgareddau sydd yn cael eu harwain gan blant a'r rheiny sy'n cael eu harwain gan oedolion. Maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddysgu trwy chwarae a phrofiadau ymarferol, yn enwedig dan do.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob un o'r plant ac maent yn herio plant yn gyson ym mhob gweithgaredd ffocws, gan gynnwys heriau ymestynnol i'r plant mwyaf abl. Mae eu cyflwyniadau i dasgau ffocws yn gryno a phwrpasol, sy'n cynnal diddordebau'r plant yn effeithiol. Maent yn ymyrryd yn synhwyrol yn chwarae'r plant ac yn cymell unigolion i berfformio ar eu gorau yn ystod gweithgareddau parhaus. Mae'r ymarferwyr yn holi plant yn fedrus i ddatblygu eu medrau meddwl ac yn creu cyfleoedd heriol i gyfathrebu a manylu ar agweddau o'r dasg. Mae hyn yn amlwg wrth drafod y gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng y gwahanol synhwyrau a sut rydym yn eu defnyddio yn ein bywydau bob dydd.

Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i asesu eu dysgu eu hunain yn effeithiol ar lafar. Yn ogystal, maent yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Mae'r ymarferwyr newydd ddechrau ar gwblhau asesiadau dyddiol yn fwy rheolaidd a chyson. Yn ddiweddar, maent yn cofnodi arfarniadau a thrafodaethau dyddiol ar daflenni cofnodi defnyddiol. Mae hyn yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio tasgau a thargedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn effeithlon. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd o arsylwadau dyddiol yn adlewyrchu cynnydd a chyflawniadau plant unigol yn gwbl glir.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am gyflawniadau eu plant. Ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r ymarferwyr yn cyflwyno enghreifftiau o waith y plant ac adroddiadau ar eu cynnydd i rieni, syn adlewyrchu'n glir ddatblygiad eu plant.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i blant fyfyrio, trafod teimladau a dweud diolch yn ddyddiol. Mae hyn yn creu awyrgylch cwrtais wrth i'r plant eistedd i wrando ar oedolion a thacluso ar ôl cwblhau gweithgareddau. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd defnyddiol ac ymarferol iddynt weini a chynorthwyo ei gilydd er mwyn datblygu eu hannibyniaeth. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cymryd eu tro'n gwrtais wrth fwyta byrbryd o amgylch y bwrdd bwyta ac wrth iddynt gydweithio i dacluso'r ystafell.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio sesiynau torfol yn llwyddiannus i ganolbwyntio ar deimladau plant a'r ffyrdd mwyaf perthnasol i drin pobl eraill. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch yn effeithiol. Mae'r arferion dyddiol hyn yn fuddiol i ethos cyffredinol y lleoliad.

Mae trefniadau effeithlon gan y lleoliad i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad ac yn cefnogi eu dysgu'n bwrpasol. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn hybu bwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn pwysleisio'n effeithiol fod ffrwythau, llysiau a chadw'n heini yn rhan bwysig o fywydau iachus.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn, nwyddau plastig a bwyd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae’r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy’n dileu unrhyw fath o ymddygiad afresymol. O ganlyniad, mae’r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion ac maent yn aml yn gofyn am gymorth. Mae’r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae’r ymarferwyr yn cymryd gofal effeithiol o’r plant pan fyddant yn cyrraedd a gadael. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn drylwyr pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae’r ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd ac yn cynllunio ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol pan fydd angen. Mae’r ymarferwyr yn trafod y plant hyn gyda’r asiantaethau arbenigol i fodloni eu hanghenion yn briodol pan fo’r angen yn codi.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau'n briodol i fodloni anghenion y plant a gofynion y cyfnod sylfaen. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio ystod eang o adnoddau ymarferol yn bwrpasol mewn gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi dysgu yn yr amgylchedd dan do. Maent yn caniatáu i blant ddefnyddio’r cyfarpar yn annibynnol, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus tuag at hyrwyddo eu hymdeimlad o gyfrifoldeb am eiddo pobl eraill.

Mae’r ymarferwyr yn atgoffa’r plant yn gyson ein bod ni’n byw mewn cymdeithas sy’n cydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Maent yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy eu gweithgareddau dyddiol ac agweddau synhwyrol tuag at bobl eraill. Maent yn dathlu’r Flwyddyn Newydd Dsieiniaidd yn flynyddol ac yn blasu bwydydd o wahanol ddiwylliannau fel pitsa o’r Eidal. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn addysgu’r plant am wahanol wyliau a diwylliannau’r byd yn llwyddiannus.

Mae'r amgylchedd dysgu dan do yn lân ac wedi'i gynnal yn dda. Er bod yr ystafell yn gymharol fach, mae’r ymarferwyr yn trefnu'r ardaloedd dysgu’n synhwyrol i greu amgylchedd dysgu difyr yn ddyddiol. Maent yn annog plant i symud o un ardal ddysgu i’r llall heb lawer o anogaeth, sy’n cyfrannu’n llwyddiannus at ddarparu amrywiaeth o brofiadau diddorol iddynt. Yn ogystal, mae’r ymarferwyr yn defnyddio’r ardal leol a chyfleusterau’r pentref yn bwrpasol i wella profiadau dysgu’r plant.

Er nid oes ardal awyr agored benodol gan y lleoliad, mae’r ysgol yn sicrhau bod gan y lleoliad defnydd dyddiol o ardal allanol y cyfnod sylfaen, yn ogystal â’r buarth mawr a’r cae. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn eu defnyddio'n effeithiol. O ganlyniad, mae gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y defnydd o’r amgylcheddau dysgu dan do a'r awyr agored. Nid yw'r lleoliad felly’n trefnu meysydd dysgu ysgogol yn yr ardal allanol i gyfoethogi profiadau’r plant ymhellach.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Yn dilyn ei phenodiad diweddar, mae'r arweinydd wedi sicrhau bod arferion arweinyddiaeth yn dechrau gwreiddio'n briodol yn y lleoliad. Mae hi'n effeithio newidiadau synhwyrol mewn ffyrdd cadarnhaol. O ganlyniad, mae hi'n defnyddio gwybodaeth berthnasol a rheolaidd ynglŷn â'r lleoliad i hybu gwelliannau'n bwrpasol.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n effeithiol ar wella'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. O ganlyniad, maent wedi dechrau sefydlu gweithdrefnau arweinyddiaeth cadarn ym mywyd dyddiol y lleoliad. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n gadarnhaol ar hyrwyddo a chynnal arferion i wella cynllunio profiadau dysgu ac effaith yr addysgu. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn wedi cael digon o amser hyd yn hyn i wella'r defnydd o'r ardaloedd allanol i hybu'r dysgu ymhellach.

Mae'r arweinydd wedi dilyn canllawiau a chyngor yr awdurdod lleol ar sut i gynllunio cwricwlwm eang a chytbwys. O ganlyniad, mae cyfeiriad cadarnhaol i'r gweithgareddau dyddiol a phrosesau tymor hir y lleoliad, yn enwedig tu fewn yr adeilad.

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol ac yn fuddiol i'w datblygiad. Mae hi'n diffinio rolau cyfrifoldeb yr ymarferwyr yn glir er mwyn hyrwyddo llwyddiannau yn y lleoliad yn bwrpasol. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn manteisio ar hyfforddiant perthnasol ac addysgiadol yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cael effaith briodol ar waith dyddiol y lleoliad, fel gwella'r cynllunio a chryfhau'r gweithdrefnau asesu.

Cynnar yw arfer yr arweinydd o gynnal goruchwyliaethau ac arfarniadau priodol o'r ymarferwyr eraill. Nid yw'r broses wedi cael amser i wreiddio ac effeithio'n llawn ar wella ymhellach y ddarpariaeth allanol a hyfforddiant ymarferwyr.

Mae'r pwyllgor rheoli yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am arferion y lleoliad o ddydd i ddydd gan yr arweinydd ac mewn cyfarfodydd rheolaidd. Mae'r pwyllgor rheoli'n gweithredu arferion addas i sicrhau ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r cyfrifoldebau wedi eu dosrannu'n ystyrlon rhyngddynt i effeithio'r lleoliad yn gwbl lwyddiannus. O ganlyniad, mae'r pwyllgor rheoli yn arfarnu gwaith yr arweinydd yn achlysurol ac mae'r broses felly'n anghyson a heb sefydlu'n gadarn.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r gweithdrefnau gwella ansawdd cadarnhaol yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae'r arweinydd, gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol, wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau plant a'r ddarpariaeth. Mae'r cydweithio pwrpasol, ynghyd â chyfarfodydd staff ffurfiol a thrafodaethau dyddiol, yn cyfrannu'n llwyddiannus at hyn.

Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu'n ystyried barnau ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn bwrpasol. Mae hyn yn fuddiol i'r lleoliad o ran adeiladu darlun gwell o'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae'r arweinydd yn dilyn gweithdrefnau meintiol yr awdurdod lleol wrth hunanarfarnu. Mae ei defnydd o'r gweithdrefnau yn sicrhau pontio effeithiol rhwng yr hunanarfarnu a'r cynllun datblygu.

Mae'r arweinydd yn nodi'r meysydd i'w gwella yn glir yn yr adroddiad hunanarfarnu, ac mae'n defnyddio'r rhain yn uniongyrchol i bennu blaenoriaethau addas yng nghynllun datblygu'r lleoliad. O ganlyniad, mae'r arweinydd yn cymryd camau effeithiol i roi gwelliannau ar waith trwy gynlluniau gwella pwrpasol.

Mae'r arweinydd yn gwella'r ddarpariaeth drwy fabwysiadu strategaethau gwahanol ac mae'n derbyn cyngor gwerthfawr gan eraill, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae hyn yn cynnwys dechrau defnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn briodol a sefydlu systemau arweinyddiaeth cadarn. Mae'r arweinydd yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi gyda ffyrdd gwahanol o weithio. Yn ddiweddar, mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar gynllunio gweithgareddau heriol i wella dysgu a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n dda gyda phartneriaid i wella safonau a lles plant, ynghyd â'r ddarpariaeth. Mae'r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar arferion dyddiol y lleoliad, fel aildrefnu'r ardaloedd dysgu yn yr ystafell ac ailstrwythuro cynllunio profiadau dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Maent yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am bob agwedd ar waith y lleoliad. Maent hefyd yn eu hannog i fynegi'u barnau ar faterion i wella'r lleoliad drwy holiaduron, cyfryngau cymdeithasol a thrafodaethau rheolaidd. O ganlyniad, mae gweithdrefnau'r lleoliad wedi ehangu i gydweithio gyda'r ysgol yn effeithiol, i dargedu anghenion plant unigol.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau cadarnhaol â staff yn yr ysgol, ac mae hyn yn cynorthwyo trefniadau pontio'r plant yn effeithlon. Mae'r trefniadau i drosglwyddo asesiadau a gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac yn fuddiol i'r plant wrth iddynt ymgartrefu yn yr ysgol.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n fuddiol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r perthnasoedd cadarnhaol hyn yn atgyfnerthu gwaith y lleoliad ac yn ei gefnogi'n weithredol, er enghraifft gyda dogfennaeth i gefnogi'r gweithdrefnau rheolaeth newydd.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio ac yn cysylltu gydag ystod eang o bartneriaid eraill, sy'n gwneud cyfraniad pwysig at wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf ac amddiffyn plant, a chyrsiau hylendid bwyd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd yn dechrau gwella pob agwedd ar waith y lleoliad yn gyson drwy reoli staff ac adnoddau'n llwyddiannus. Gyda hyfforddiant a chefnogaeth bwrpasol, mae hi'n llwyddo i sicrhau bod y ddarpariaeth yn effeithio'n bwrpasol ar ddeilliannau'r plant.

Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn briodol ar hyn o bryd ac yn dechrau galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn werthfawr. O ganlyniad, mae diwylliant o gydweithio defnyddiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill, sy'n cynnwys yr ysgol.

Mae’r lleoliad yn rheoli’r adnoddau dan do yn effeithiol i gefnogi’r dysgu. Mae arferion a threfn ddyddiol y lleoliad yn gyson ac yn sicrhau bod plant yn elwa o brofiadau dysgu difyr a chadarnhaol. Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael mynediad parod i ddigon o adnoddau diddorol i gefnogi eu dysgu’n llwyddiannus.

Mae gan yr arweinydd a’r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o’r gyllideb, ac maent yn blaenoriaethu gwariant drwy nodi cyfrifoldebau a graddfeydd amser synhwyrol. Maent yn creu gwelliannau rheolaidd trwy drafod ac ariannu cynlluniau datblygu’n bwrpasol, sy’n cynnwys diweddaru adnoddau TGCh ac ennill grantiau sylweddol o gwmnïau lleol. Mae’r lleoliad yn sicrhau bod defnydd o gyllid yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles plant, ynghyd â’r ddarpariaeth o ran profiadau dysgu.

Yn gyffredinol, mae’r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian oherwydd yr effaith gadarnhaol ar ddeilliannau’r plant.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |